

BRO DWYNWEN 04/01/2026
Ail Sul y Nadolig
Second Sunday of Christmas

Colect 15

Hollalluog Dduw,
yng ngenedigaeth dy Fab
tywelltaist arnom
oleuni newydd dy Air ymgawdoledig,
gan ddangos i ni gyflawnder dy gariad:
cynorthwya ni i rodio yn ei oleuni a byw yn ei gariad
fel y bo i ni brofi llawnder ei lawenydd ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 15

Almighty God,
in the birth of your Son
you have poured on us the new light of your incarnate Word,
and shown us the fullness of your love:
help us to walk in his light and dwell in his love
that we may know the fullness of his joy;
who is alive and reigns with you,
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

Jeremeia 31. 7-14

Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: "Canwch orfoledd i Jacob, a chodwch gân i'r bennaf o'r cenhedloedd; cyhoeddych, molwch a dywedych, 'Gwardodd yr ARGLWYDD dy bobl, sef gweddill Israel.' "Ie, dygaf hwy o dir y gogledd, casglaf hwy o bellafoedd byd; gyda hwy daw'r dall a'r cloff, y feichiog ynghyd â'r hon sy'n esgor; yn gynulliad mawr fe ddychwelant yma. Dônt dan wylo, ond arweinïaf fi hwy â thosturi, tywsaf hwy wrth ffrydiau dyfroedd ar ffordd union na faglant ynddi. Yr wyf yn dad i Israel, ac Effraim yw fy nghyntafanedig.

"Clywch air yr ARGLWYDD, genhedloedd; cyhoeddych yn yr ynysoedd pell, a dweud, 'Yr un a wasgarodd Israel fydd yn ei gasglu; bydd yn gwylio drosto fel bugail dros ei braidd.' Canys yr ARGLWYDD a waredodd Jacob, a'i achub

o afael un trech nag ef. Dônt a chanu yn uchelder Seion; ymddisgleiriant gan ddaioni'r ARGLWYDD, oherwydd yr yd a'r gwin a'r olew, ac oherwydd epil y defaid a'r gwartheg. A bydd eu bywyd fel gardd ddyfradwy, heb ddim nychdod mwyach. Yna fe lawenha'r ferch mewn dawns, a'r gwŷr ifainc a'r hen hefyd ynghyd; trof eu galar yn orfoledd a diddanaf hwy; gwnaf eu llawenydd yn fwy na'u gofid. Diwallaf yr offeiriaid â braster, a digonir fy mhobl â'm daioni," medd yr ARGLWYDD.

Jeremiah 31. 7-14

For thus says the Lord: Sing aloud with gladness for Jacob, and raise shouts for the chief of the nations; proclaim, give praise, and say, 'Save, O Lord, your people, the remnant of Israel.' See, I am going to bring them from the land of the north, and gather them from the farthest parts of the earth, among them the blind and the lame, those with child and those in labour, together; a great company, they shall return here. With weeping they shall come, and with consolations I will lead them back, I will let them walk by brooks of water, in a straight path in which they shall not stumble; for I have become a father to Israel, and Ephraim is my firstborn.

Hear the word of the Lord, O nations, and declare it in the coastlands far away; say, 'He who scattered Israel will gather him, and will keep him as a shepherd a flock. 'For the Lord has ransomed Jacob, and has redeemed him from hands too strong for him. They shall come and sing aloud on the height of Zion, and they shall be radiant over the goodness of the Lord, over the grain, the wine, and the oil, and over the young of the flock and the herd; their life shall become like a watered garden, and they shall never languish again. Then shall the young women rejoice in the dance, and the young men and the old shall be merry. I will turn their mourning into joy, I will comfort them, and give them gladness for sorrow. I will give the priests their fill of fatness, and my people shall be satisfied with my bounty, says the Lord.

Salm 147. 12-20

Molianna yr ARGLWYDD, O Jerwsalem; mola dy Dduw, O Seion, oherwydd cryfhaodd farrau dy byrth, a bendithiodd dy blant o'th fewn. Y mae'n rhoi heddwch i'th derfynau, ac yn dy ddigoni â'r yd gorau. Y mae'n anfon ei orchymyn i'r ddaear, ac y mae ei air yn rhedeg yn gyflym. Y mae'n rhoi eira fel gwlân, yn taenu barrug fel lludw, ac yn gwasgaru ei rew fel briwsion; pwyl a all ddal ei oerni ef? Y mae'n anfon ei air, ac yn eu toddi; gwna i'w wynt chwythu, ac fe lifa'r dyfroedd. Y mae'n mynegi ei air i Jacob, ei ddeddfau a'i

farnau i Israel; ni wnaeth fel hyn ag unrhyw genedl, na dysgu iddynt ei farnau. Molwch yr ARGLWYDD.

Psalm 147. 12-20

Praise the Lord, O Jerusalem! Praise your God, O Zion! For he strengthens the bars of your gates; he blesses your children within you. He grants peace within your borders; he fills you with the finest of wheat. He sends out his command to the earth; his word runs swiftly. He gives snow like wool; he scatters frost like ashes. He hurls down hail like crumbs— who can stand before his cold? He sends out his word, and melts them; he makes his wind blow, and the waters flow. He declares his word to Jacob, his statutes and ordinances to Israel. He has not dealt thus with any other nation; they do not know his ordinances. Praise the Lord!

Effesiaid 1. 3-14

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd. Cyn seilio'r byd, fe'n dewisodd yng Nghrist i fod yn sanctaidd ac yn ddi-fai ger ei fron mewn cariad. O wirfodd ei ewyllys fe'n rhagordeiniodd i gael ein mabwysiadu yn blant iddo'i hun trwy Iesu Grist, er clod i'w ras gogoneddus, ei rad rodd i ni yn yr Anwylyd. Ynddo ef y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed, sef maddeuant ein camweddau; dyma fesur cyfoeth y gras a roddodd mor hael i ni, ynghyd â phob doethineb a dirnadaeth. Hysbysodd i ni ddirgelwch ei ewyllys, yn unol â'r bwriad a arfaethodd yng Nghrist yng nghynllun cyflawniad yr amseroedd, sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, gan gynnwys pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear. Ynddo ef hefyd rhoddwyd i ni ran yn yr etifeddiaeth, yn rhinwedd ein rhagordeinio yn ôl arfaeth yr hwn sy'n gweithredu pob peth yn ôl ei fwriad a'i ewyllys ei hun. A thrwy hyn yr ydym ni, y rhai cyntaf i obeithio yng Nghrist, i ddwyn clod i'w ogoniant ef. A chwithau, wedi ichwi glywed gair y gwirionedd, Efengyl eich iachawdwriaeth, ac wedi ichwi gredu ynddo, gosodwyd arnoch yng Nghrist sêl yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi ei addo. Yr Ysbryd hwn yw'r ernes o'n hetifeddiaeth, nes ein prynu'n rhydd i'w meddiannu'n llawn, er clod i ogoniant Duw.

Ephesians 1. 3-14

Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ, who has blessed us in Christ with every spiritual blessing in the heavenly places, just as he chose us in Christ before the foundation of the world to be holy and blameless before him in love. He destined us for adoption as his children through Jesus
Page 2 of 3

Christ, according to the good pleasure of his will, to the praise of his glorious grace that he freely bestowed on us in the Beloved. In him we have redemption through his blood, the forgiveness of our trespasses, according to the riches of his grace that he lavished on us. With all wisdom and insight he has made known to us the mystery of his will, according to his good pleasure that he set forth in Christ, as a plan for the fullness of time, to gather up all things in him, things in heaven and things on earth. In Christ we have also obtained an inheritance, having been destined according to the purpose of him who accomplishes all things according to his counsel and will, so that we, who were the first to set our hope on Christ, might live for the praise of his glory. In him you also, when you had heard the word of truth, the gospel of your salvation, and had believed in him, were marked with the seal of the promised Holy Spirit; this is the pledge of our inheritance towards redemption as God's own people, to the praise of his glory.

Ioan 1. [1-9,] 10-18

[1-9]

Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. Daeth hwn yn dyst, i dystiolaethu am y goleuni, er mwyn i bawb ddod i gredu trwyddo. Nid ef oedd y goleuni, ond daeth i dystiolaethu am y goleuni. Yr oedd y gwir oleuni, sy'n goleuo pawb, eisoes yn dod i'r byd.

10-18

Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono. Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw.

A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. Y mae Ioan yn tystio amdano ac yn cyhoeddi: "Hwn oedd yr un y dywedais amdano, 'Y mae'r hwn sy'n dod ar f'ôl i wedi fy mlaenori i, oherwydd yr oedd yn bod o'm blaen i.'" O'i gyflawnder ef yr ydym ni oll wedi derbyn gras ar ben gras. Oherwydd trwy Moses y rhoddwyd y Gyfraith, ond gras a gwirionedd, trwy Iesu Grist y daethant. Nid oes neb wedi gweld Duw

04.01.2026

erioed; yr unig Un, ac yntau'n Dduw, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i gwnaeth yn hysbys.

John 1. [1-9,] 10-18

[1-9]

In the beginning was the Word, and the Word was with God, and the Word was God. He was in the beginning with God. All things came into being through him, and without him not one thing came into being. What has come into being in him was life, and the life was the light of all people. The light shines in the darkness, and the darkness did not overcome it.

There was a man sent from God, whose name was John. He came as a witness to testify to the light, so that all might believe through him. He himself was not the light, but he came to testify to the light. The true light, which enlightens everyone, was coming into the world.

10-18

He was in the world, and the world came into being through him; yet the world did not know him. He came to what was his own, and his own people did not accept him. But to all who received him, who believed in his name, he gave power to become children of God, who were born, not of blood or of the will of the flesh or of the will of man, but of God.

And the Word became flesh and lived among us, and we have seen his glory, the glory as of a father's only son, full of grace and truth. (John testified to him and cried out, 'This was he of whom I said, "He who comes after me ranks ahead of me because he was before me."') From his fullness we have all received, grace upon grace. The law indeed was given through Moses; grace and truth came through Jesus Christ. No one has ever seen God. It is God the only Son, who is close to the Father's heart, who has made him known.

Ôl Gymun 16

Pob moliant i ti,
hollalluog Dduw a Brenin nefol,
a anfonaist dy Fab i'r byd
i gymryd ein natur ni
a'i eni o forwyn bur:
caniatâ, wrth i ni gael ein geni drachefn ynddo ef,
iddo drigo am byth ynom ni
a theyrnasu ar y ddaear
fel y teyrnasa yn y nefoedd
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn awr ac am byth.

Post Communion Prayer 16

All praise to you,
almighty God and heavenly King,
who sent your Son into the world
to take our nature upon him
and to be born of a pure virgin:
grant that, as we are born again in him,
so he may continually dwell in us
and reign on earth as he reigns in heaven,
now and for ever.